# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

Dydd Llun, 27 Tachwedd 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Aelod y Bwrdd Gweithredol – Arweinydd)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Arweinydd – Neuadd y Sir - 2.00 - 2.05 pm**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 3. CRONFA DDATBLYGU ADFYWIO RHYDAMAN - CANOLFAN FUSNES AMAN.

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 2 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**
**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal cyfrinachedd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais gan Ganolfan Busnes Aman, Rhydaman, am grant tuag at adeiladu swyddfa 2 lawr a gwaith i addasu rhan o'r adeilad presennol a fyddai'n creu 4.5 o swyddi amser llawn ac ailddefnyddio 962 troedfedd sgwâr o ofod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o Gronfa Datblygu Adfywio Rhydaman yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| **<u>Yr Ymgeisydd/Eiddo</u>** | **Y Dyfarniad** |
|---|---|
| Canolfan Fusnes Aman | £75,060.00. |

CADEIRYDD

DYDDIAD